

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Caerfyrddin am 11.00yb ar ddydd Mercher 17, Hydref, 2012

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Dr Siân Wyn Siencyn, Gwerfyl Roberts, Dr Dylan Foster Evans, Elin Haf Gruffydd Jones, Dr Carwyn Jones, Dr Eleri Pryse, Delyth Murphy, yr Athro Deri Tomos, yr Athro Siwan Davies, yr Athro Densil Morgan, Dr Gwilym Dyfri Jones

Aelodau (Canghennau): Geraint Cunnick, Gina Morgan, Phil Ainsworth, Dr Mari Elin Jones, Dr Gwenno Ffrancon, Dr Enlli Thomas, Dr Gwilym Roberts, Dr Lisa Lewis

Aelodau (Myfyrwyr): Adam Jones, Alys Rosser

Aelodau (Colegau Cymru): Carys Swain

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips, Dr Gwennan Schiavone, Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Chyflwyniad	1.1. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Deon 1.2. Estynnwyd llongyfarchiadau cynnes y Bwrdd Academaidd i'r Athro Siwan Davies am gael ei phenodi i gadair bersonol gan Brifysgol Abertawe.		
2. Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau gan Dr Anwen Jones (Dr Mari Elin Jones yn dirprwyo) a Gwennan Owain (Carys Swain yn dirprwyo). 2.2. Nodwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Gwynedd Parry, yr Athro Richard Wyn Jones a Manon George		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>2.3. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb heblaw'r rhai a nodwyd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd.</p> <p>2.4. Nodwyd fod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ddisgwylieidig a bod cyfansoddiad y Bwrdd yn nodi y byddai aelodaeth y sawl sydd yn methu tri cyfarfod yn olynol yn dod i ben. Cytunwyd y byddai'r Deon yn ysgrifennu at yr aelodau sydd wedi methu dau gyfarfod yn olynol i'w hatgoffa o'r rheol hon.</p>	Hefin Jones i ysgrifennu at aelodau'r Bwrdd	Diwedd Tachwedd 2012
<p>3. Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar y 23ain o Fai, 2012</p>	<p>3.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir; ag eithrio nodi fod Gwilym Dyfri Jones wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.</p>		
<p>4. Materion yn Codi o'r Cofnodion</p>	<p>4.1. Aelodaeth y Paneli Pwnc Nodwyd fod cyfarfodydd y paneli pwnc bellach cychwyn yn eu ffurf newydd. Mae'r paneli yn is-bwyllgorau ffurfiol o'r Bwrdd Academaidd ac mae'n bwysig sicrhau fod cynrychiolaeth briodol o'r prifysgolion hynny sy'n darparu'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r paneli.</p> <p>4.2. Aelodaeth Myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd Nodwyd fod mater cynrychiolaeth myfyrwyr oddi fewn i'r Coleg yn destun trafodaeth rhwng y Coleg ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru [UCMC] ar hyn o bryd. Nododd y Bwrdd awydd i sicrhau fod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli'n llawn ar y Bwrdd a pharodrwydd y Bwrdd (yn amodol ar drafodaeth) i gynyddu rhywfaint y nifer cynrychiolwyr er mwyn hwyluso hynny.</p> <p>4.3 Geiriadur Prifysgol Cymru Derbyniwyd diweddariad gan Ioan Matthews yn nodi fod y Deon wedi ysgrifennu at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg a bod ymateb wedi ei dderbyn yn nodi y bydd adolygiad o faes geiriadura yn y dyfodol. Adroddwyd fod cyfarfod wedi</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>ei drefnu gyda'r Comisiynydd yr wythnos ganlynol i drafod materion eraill ac y byddai cyfle i holi am ddiweddariad bryd hynny.</p> <p>4.4 UCAS Nodwyd fod y cyfarfod gwreiddiol gydag UCAS wedi ei ohirio ond y mae dyddiad newydd wedi ei gytuno ym mis Tachwedd.</p>		
<p>5. Cynllunio Academaidd fesul pwnc</p>	<p>5.1. Derbyniwyd, er gwybodaeth, gopi o gylchlythyr a gyhoeddwyd gan y Coleg ym mis Gorffennaf yn amlinellu proses cynllunio academaidd y Coleg ac yn gwahodd y sefydliadau i nodi'n ffurfiol y meysydd hynny y byddant yn dymuno eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg gyda chefnogaeth y Coleg.</p> <p>5.2. Nodwyd y byddai pob cynllun pwnc unigol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd ar gyfer trafodaeth a chymeradwyaeth yn dilyn datganiadau trafodaeth gyda'r prifysgolion perthnasol ac oddi fewn i'r paneli pwnc.</p> <p>5.3. Adroddwyd fod ffurf ymatebion y prifysgolion i'r cylchlythyr yn amrywio e.e ymddengys fod rhai sefydliadau wedi ymgynghori'n llawnach gydag ysgolion / adrannau yn fewnol cyn cyflwyno ymateb i gylchlythyr y Coleg. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, fod y Coleg wedi bod yn glir iawn ynghylch pwysigrwydd yr ymarferiad hwn a bod llythyr wedi ei ddanfôn at is-gangellorion yn gynharach yn y flwyddyn mewn perthynas â statws ymatebion sefydliadol i gylchlythyron y Coleg. Mae'r Coleg, felly, yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn rai swyddogol a therfynol.</p> <p>5.4. Gofynnodd rhai aelodau o'r Bwrdd ynghylch y trefniadau ar gyfer cynnal trafodaethau rhwng y Coleg a'r prifysgolion unigol ynghylch materion yr oedd angen eglurder pellach arnynt cyn cyflwyno cynllun ar gyfer</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>trafodaeth a chymeradwyaeth yn y Bwrdd Academaidd. Adroddodd y swyddogion y byddai cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda phrifysgolion unigol er mwyn gwyntyllu materion o'r fath wrth lunio'r cynlluniau unigol.</p> <p>5.5. Mewn perthynas â thempled cyffredinol y cynlluniau pwnc cytunwyd y dylid cynnwys tablau er mwyn crynhoi'r wybodaeth fesul sefydliad a rhestri'r targedau. Byddai hyn yn sicrhau fod y dogfennau yn rai mor hylaw â phosibl i'w defnyddio a'u diweddarau.</p>		
<p>6. Cynllun Daeryddiaeth, Amaethyddiaeth a Rheolaeth Amgylcheddol</p>	<p>6.1. Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r Cynllun Daeryddiaeth, Amaethyddiaeth a Rheolaeth Amgylcheddol.</p> <p>6.2. Cytunwyd fod angen datblygu'r cynllun ymhellach i gynnwys data penodol fesul sefydliad ac i gynnwys tablau ble bo'n briodol i grynhoi'r wybodaeth</p> <p>6.3. Nodwyd fod angen trafodaethau pellach gyda phrifysgolion Bangor ac Abertawe, gan gynnwys ystyriaeth ar y nifer o gredydau y maent yn bwriadu eu cynnig yn flynyddol cyn bod modd ystyried y Cynllun mewn ffurf derfynol.</p> <p>6.4. Penderfynwyd na fyddai Cynllunio Gwlad a Thref yn cael ei ystyried yn y Cynllun ar hyn o bryd gan na chafwyd datganiad o ddiddordeb gan Brifysgol Caerdydd fel rhan o ymateb y sefydliad i gylchlythyr y Coleg Byddai'r Coleg yn annog y Brifysgol i fuddsoddi yn y maes o'i hadnoddau ei hun.</p> <p>6.5. Nodwyd fod angen trafodaeth bellach ar y ddarpariaeth ôl-radd.</p> <p>6.6. Cytunwyd fod angen targedau interim (ar ffurf i'r trafod) er mwyn gallu mesur cynnydd tuag at dargedau 2015/16.</p>	<p>Cyflwyno Cynllun terfynol i'r Bwrdd Academaidd</p>	<p>Chwefror 2013</p>
<p>7. Cynllun y Gyfraith</p>	<p>7.1. Cyflwynwyd drafft cyntaf o Gynllun y Gyfraith</p> <p>7.2. Nodwyd fod angen datblygu'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng y ddarpariaeth gydweithredol a darpariaeth mewn</p>	<p>Cyflwyno Cynllun terfynol i'r Bwrdd Academaidd</p>	<p>Chwefror 2013</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>lleoliadau penodol.</p> <p>7.3. Cytunwyd fod angen datblygu'r cynllun ymhellach i gynnwys data penodol fesul sefydliad ac i gynnwys tablau ble bo'n briodol i grynhoi'r wybodaeth.</p> <p>7.4. Nodwyd fod angen i'r trafodaethau pellach gyda sawl un o'r prifysgolion cyn bod modd ystyried y Cynllun mewn ffurf derfynol.</p> <p>7.5. Nodwyd fod angen amcanu at gynnig modiwlau craidd cyflawn yn Gymraeg – h.y. y darlithoedd, seminarau a'r asesiadau.</p>		
8. Cynllun leithoedd Modern	<p>8.1. Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r Cynllun leithoedd Modern.</p> <p>8.2. Nodwyd mai drafft cychwynnol oedd y Cynllun hwn a bod y Panel yn datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y maes</p> <p>8.3. Cytunwyd fod Cynllun Cenedlaethol o'r fath yn addas wrth ystyried y niferoedd bychain sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio leithoedd Modern mewn lleoliadau unigol.</p> <p>8.4. Cytunwyd fod angen defnyddio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil darpariaeth Dysgu Gydol Oes i fwydo i'r trafodaethau am leithoedd Modern.</p>	Cyflwyno Cynllun terfynol i'r Bwrdd Academaidd	Chwefror 2013
9. Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg	<p>9.1. Cyflwynwyd papur ar ddyfodol Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.</p> <p>9.2. Trafodwyd yn helaeth y posibiladau ar gyfer ehangu nodau'r cynllun i gwmpasu datblygu ysgolheictod yn Gymraeg a/neu ysgolheictod Cymreig yn ogystal â'r elfen ad dysgu a meithrin capasiti staffio.</p> <p>9.3. Yn gyffredinol, yr oedd aelodau'r Bwrdd yn croesawi'r awgrymiadau ond codwyd rhai pryderon ar sail yr angen i reolau'r cynllun fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu cefnogi doethuriaethau mewn ystod eang o feysydd academaidd.</p> <p>9.4. Cytunodd swyddogion y Coleg i baratoi papur diwygiedig yn adlewyrchu'r drafodaeth yn y Bwrdd ac i drafod y mater eto yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd gyda'r bwriad o</p>	Dr Dylan Phillips i baratoi papur diwygiedig.	

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ddod i benderfyniad terfynol.		
10. Tystysgrif Sgiliau Iaith	<p>10.1. Nodwyd adroddiad cynnydd ar Dystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg a'r ffaith fod y Coleg wedi hysbysebu am swyddi tiwtoriaid iaith i gefnogi'r dystysgrif yn ddiweddar.</p> <p>10.2. Holwyd rhai cwestiynau am lefel arfaethedig y Dystysgrif ac adroddodd Dr Dylan Foster Evans fod y mater hwn wedi ei drafod yn fanwl iawn wrth gynllunio a pheilota'r Dystysgrif. Nodwyd hefyd fod y Dystysgrif wedi ei thrafod yn llawn mewn nifer o gyfarfodydd cangen ac y bu'n rhaid dod i benderfyniadau terfynol er mwyn gallu cynnig y Dystysgrif i fyfyrwr. Cytunwyd i gylchredeg manylion llawn am y Dystysgrif i aelodau'r Bwrdd.</p>	Dr Gwennan Schiavone i ddosbarthu gwybodaeth am y dystysgrif	Erbyn diwedd Tachwedd 2012
11. Cynllun Rhan Amser	11.1. Derbyniwyd adroddiad llafar gan Dr Ioan Matthews. Nodwyd y byddai'r Cynllun yn cael ei osod ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd er mwyn rhoi diweddariad llawn i'r aelodau. Adroddwyd fod yr amserlen wedi ei newid yn dilyn cytundeb i ystyried cwestiynau ehangach am gyflwyno a dilysu darpariaeth gydweithredol. Byddai'r gwaith paratoi ar y Cynllun yn parhau yn y cyfamser.	Mater i'w osod ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd	Chwefror 2013
12. Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil	12.1. Nodwyd adroddiad gan y Deon ar drafodaethau ym Mwrdd Golygyddol Gwerddon mewn perthynas â'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil [FfRhY]. Cytunwyd y dylai'r Deon anfon llythyr, ar ran y Bwrdd Academaidd, at bwyllgor canolog y FfRhY. Cymeradwywyd drafft o lythyr a oedd wedi ei baratoi er mwyn ei danfon yn enw'r Bwrdd Academaidd.	Deon y Coleg i ysgrifennu at bwyllgor canolog y FfRhY	Erbyn diwedd Tachwedd 2012
13. Cytundeb Rhwng y Coleg a Chyhoeddwr	13.1. Dosbarthwyd a chytunwyd gweithdrefn y Coleg ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyhoeddi cyfrolau academaidd wedi eu cyllido gan y Coleg.		
14. Materion Myfyrwr	14.1. Nodwyd fod cwestiynau am gynrychiolaeth myfyrwr eisoes wedi eu trafod ac y byddai trafodaeth bellach gydag UCMC cyn y Bwrdd Academaidd nesaf. Cytunwyd y byddai cynrychiolaeth myfyrwr yn eitem benodol ar		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	agenda'r cyfarfod nesaf.		
15. Materion o'r Canghennau	15.1. Codwyd mater yr Adolygiad o faes Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd i'w gynnal gan yr Athro Ralph Tabberner ar gais y Gweinidog Addysg. Nodwyd fod cyfle, er gwaethaf y pryderon sydd yn codi, i bwysleisio pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes hwn. Cytunwyd fod angen i'r Coleg gyfrannu at yr Adolygiad, gan y gallai newidiadau gael effaith niweidiol ar y Gymraeg oni bai fod y darlun llawn wedi ei ystyried.	Y Coleg i gyfrannu at yr Adolygiad HCA	Tachwedd / Rhagfyr 2012
16. UFA	16.1. Awgrymwyd y dylid ystyried cynrychiolaeth o'r sector ysgolion ar y Bwrdd Academaidd. Cytunodd swyddogion y Coleg i ystyried hyn ymhellach.	Swyddogion y Coleg i ystyried y mater ac adrodd nôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd	Chwefror 2013
17. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf	17.1. Nodwyd y cynhelir cyfarfodydd nesaf y Bwrdd Academaidd ar 6 Chwefror 2013 yn Abertawe ac ar 8 Mai 2013 ym Mangor.		